



Y Ganolfan  
Dysgu Cymraeg  
Genedlaethol —  
National Centre  
for Learning Welsh



# Dechrau Dysgu

Tystysgrif Lefel 4 CBAC i  
Diwtoriaid Dysgu Cymraeg

Gwybodaeth i Ddarpar Fyfyrrwyr  
a Darparwyr Cwrs y Ganolfan  
Dysgu Cymraeg Genedlaethol

[dysgucymraeg.cymru](http://dysgucymraeg.cymru)  
[learnwelsh.cymru](http://learnwelsh.cymru)



Uywodaeth Cymru  
Welsh Government



Dysgu  
Learn

## **DECHRAU DYSGU**

### **GWYBODAETH I DDARPAR FYFYRWYR A DARPARWYR CYRSIAU DYSGU CYMRAEG I OEDOLION**

#### **1. Nodau ac amcanion**

Nod 'Dechrau Dysgu' yw meithrin y sgiliau sydd eu hangen ar diwtor newydd wrth ddechrau dysgu Cymraeg i oedolion. Rhoddir arweiniad ymarferol i diwtoriaid ddatblygu sgiliau dysgu effeithiol ac i ddeall egwyddorion dysgu iaith. Rhaid i fyfyrwyr roi'r sgiliau a'r wybodaeth ar waith wrth ymarfer dysgu, ac asesir eu cyflawniad drwy arsylwi, adfyfrio ac aseiniadau. Rhoddir sylw penodol i ddysgu dysgwyr lefel Mynediad yn y cymhwyster hwn.

Darperir y cymhwyster gan Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin (DCGO) mewn cydweithrediad â Dysgu Cymraeg Ceredigion – Powys – Sir Gâr, (DCCPS) a thrwy gytundeb â CBAC a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

I weld y fanyleb yn llawn, ewch i [www.cbac.co.uk](http://www.cbac.co.uk)

#### **2. Cynulleidfa darged**

Tiwtoriaid newydd y sector dysgu Cymraeg i oedolion.

#### **3. Cynnwys 'Dechrau Dysgu'**

Rhoddir arweiniad ymarferol ar yr elfennau isod:

- 1.1 Cyflwyno iaith
- 1.2 Ymarfer iaith
- 1.3 Geirfa, Ynganu a Gwranddo
- 1.4 Cynllunio Gwersi
- 1.5 Y Wers Gyntaf
- 1.6 Ymdrin â Gramadeg
- 1.7 Deinameg Dosbarth
- 1.8 Gwers iaith
- 1.9 Ysgrifennu Aseiniad
- 1.10 Datblygu'r Dysgu
- 1.11 Dysgu Digidol

Mae 3 cham i'r hyfforddiant:

- i. **Gwaith darllen** - Bydd angen gwneud gwaith darllen cyn pob sesiwn hyfforddi
- ii. **Hyfforddiant rhithiol ac un penwythnos wyneb yn wyneb** - ar blatfform Microsoft Teams. Rhaid i'r myfyrwyr fynychu o leiaf 80% o'r sesiynau hyfforddi i gyflawni'r cymhwyster. Gweler y sesiynau [yma](#)
- iii. **Asesu**

Bydd yn ofynnol i'r darparwr cyrsiau dysgu Cymraeg i oedolion drefnu bod myfyriwr sy'n cwblhau ei ymarfer dysgu â nhw yn cael mentor ar ffurf tiwtor profiadol. Ni fydd y mentor yn asesu'r myfyriwr yn ffurfiol. Yn hytrach, bydd y mentor yn cynnig arweiniad a chymorth er mwyn paratoi'r myfyriwr at gael ei arsylwi'n dysgu gan asesydd mewnol, sef Asesiad 3.

Mae 4 elfen asesu. Ni roddir marc. Yn hytrach, rhaid i'r myfyrwyr gyflawni pob elfen a chwrdd â'r meini prawf i gyd er mwyn llwyddo yn y cymhwyster hwn. Caiff pob elfen ei hasesu'n fewnol gan DCG/ /DCCPS, a'i dilysu'n allanol gan CBAC.

### **ASESIAD 1 – MEICRO-WERS**

Rhaid i'r myfyrwyr gynllunio gwers fer iawn (dim mwy na 20 munud) ar ran o uned o'r cwrs Mynediad, ac yna ei chyflwyno i grŵp bach o'u cyd fyfyrwyr. Bydd angen paratoi cynllun gwers cryno gan ddefnyddio'r templed priodol, a chyflwyno'r wers gan ddefnyddio adnoddau effeithiol.

**Dyddiad y meicro-wersi:** 8 a 9/Tach/22.

### **ASESIAD 2 – ARSYLWI GWERSI ERAILL**

Bydd angen i bob myfyriwr arsylwi isafswm o 6 awr o wersi dan ofal o leiaf 3 thiwtor gwahanol. Yn dilyn yr arsylwadau, bydd angen i'r myfyrwyr ysgrifennu aseiniad tua 1,000 o eiriau yn dadansoddi'r arferion da a welwyd yn ystod y gwersi o safbwynt y dysgu a'r addysgu.

**Dyddiad cyflwyno:** 07/01/23

### **ASESIAD 3 – YMARFER DYSGU**

Bydd mentor ar ffurf tiwtor profiadol gan bob myfyriwr.

Os ydy'r myfyriwr yn diwtor cyflogedig, bydd angen i'r mentor arsylwi'r myfyriwr 3 gwaith yn ystod cyfnod astudio'r cymhwyster. Os nad ydy'r myfyriwr yn diwtor cyflogedig, mae modd iddo gyflwyno rhan benodol o wers dan ofal y mentor, gan araf gynyddu i ddysgu gwrs gyfan ei hun.

Bydd angen i'r mentor gwblhau Ffurflen Adborth y Mentor a thrafod cynnwys y ffurflen wrth roi adborth i'r myfyriwr ar ôl pob arsylwad. Dylai'r mentor roi'r adborth yn syth ar ôl y wers, neu o fewn 2 ddiwrnod gwaith os nad ydy hi'n ymarferol gwneud hynny, e.e. y lleoliad dysgu yn cau yn syth ar ôl y wers. Dylai'r mentor sicrhau bod y myfyriwr a DCGO yn derbyn copi ohoni o fewn 2 ddiwrnod gwaith i'r arsylwad.

Ar ddiwedd y cyfnod mentora bydd pob myfyriwr yn cael ei arsylwi'n dysgu un wers gan asesydd mewnol (DCGO/DCCPS). Rhaid i'r myfyriwr gwrdd â'r meini prawf i gyd er mwyn llwyddo. Mae modd ymestyn y cyfnod mentora trwy gytundeb â'r darparwr hyfforddiant os ydy'r mentor a/neu'r myfyriwr o'r farn bod angen rhagor o gefnogaeth cyn yr arsylwad gan yr asesydd mewnol.

Bydd angen i'r myfyriwr baratoi cynllun gwrs cryno gan ddefnyddio'r templed cenedlaethol.

**Dyddiad yr asesiad:** Dyddiad y wers i'w hasesu i'w drefnu gan y myfyriwr a'r dilysydd

#### **ASESIAD 4 – DADANSODDI'R YMARFER DYSGU**

Yn dilyn yr Ymarfer Dysgu (Asesiad 3) a'r cyfle i drafod yr adborth â'r asesydd mewnol, bydd angen i'r myfyriwr werthuso'r wers mewn aseiniad 1000 o eiriau.

**Dyddiad cyflwyno:** Tair wythnos ar ôl derbyn adborth ysgrifenedig i Asesiad 3

#### **5. Amserlen Hyfforddi**

Mae modd i fyfyrwr fynychu'r hyfforddiant naill ai yn ystod y dydd ar ddyddiau Mawrth (10-12 o'r gloch, Grŵp Dydd Medi 2022) neu gyda'r nos ar nosweithiau Mercher (5-7 o'r gloch, Grŵp Nos Medi 2022).

Dyma'r amserlen:

<b>Dydd Mawrth 10-12</b>	<b>Nos Fercher 5-7</b>	<b>Gwaith Darllen</b> (i'w gwblhau cyn yr hyfforddiant)	<b>Sesiwn Hyfforddi</b>	<b>Grŵp Trafod</b>
13/9/22	14/9/22		<b>Croeso i'r cwrs</b> + cyflwyniad i Microsoft Teams	
23/9/22 24/9/22 Preswyl (lleoliad i'w gadarnhau)		<b>Cyflwyno iaith: Rhan 1</b> <b>Cyflwyno iaith: Rhan 2</b> <b>Ymarfer iaith: Rhan 1</b> <b>Ymarfer iaith: Rhan 2</b> <b>Cynllunio Gwersi</b>	<b>Cyflwyno iaith</b> <b>Ymarfer iaith</b> Y wers gyntaf <b>Cynllunio Gwersi</b>	
04/9/22	05/10/22	<b>Dysgu Digidol</b>	<b>Dysgu Digidol</b>	
18/10/22	19/10/22			<b>Seminar 1 - Paratoi ar gyfer Asesiad 1</b> (awr o hyd)
08/11/22	09/11/22		<b>Asesiad 1: Meicro-ddysgu</b>	
22/11/22	23/11/22	<b>Geirfa</b> <b>Ynganu</b> <b>Gwranddo</b>	<b>Geirfa, Ynganu a Gwranddo</b>	
29/11/22 (1 awr o hyd)	30/12/22 (1 awr o hyd)	<b>Ysgrifennu Aseiniad</b>		<b>Seminar 2</b> (awr o hyd)
13/12/22	14/12/22	<b>Ymdrin â Gramadeg: Rhan 1</b> <b>Ymdrin â Gramadeg: Rhan 2</b>	<b>Ymdrin â Gramadeg</b>	
10/01/23	11/01/23	<b>Deinameg Dosbarth</b>	<b>Deinameg Dosbarth</b>	
24/01/23 (1.5 awr o hyd)	25/01/23 (1.5 awr o hyd)	<b>Holiadur Dysgu iaith</b> <b>(I'w gwblhau ar ôl y wers iaith dramor)</b>	<b>Gwers iaith - Iseldireg dan ofal Marian Broschott</b>	
07/02/23 (1 awr o hyd)	08/02/23 (1 awr o hyd)	<b>Datblygu'r Dysgu</b>		<b>Seminar 3</b> (awr o hyd)

## 6. Cwestiynau a ofynnir yn aml

### Gan ddarpar fyfyrwyr:

- **Dw i'n diwtor newydd ac yn gweithio i un o ddarparwyr cyrsiau dysgu Cymraeg i Oedolion. Sut dw i'n gwneud cais i astudio 'Dechrau Dysgu'?**  
Bydd y Ganolfan Genedlaethol yn cysylltu â holl ddarparwyr cyrsiau dysgu Cymraeg er mwyn iddynt enwebu tiwtoriaid i gwblhau'r cymhwyster. Fel tiwtor newydd, byddwch yn cael eich enwebu gan eich darparwr, a bydd DCGO yna'n cysylltu'n uniongyrchol â chi.
- **Does gen i ddim gwaith yn dysgu Cymraeg i oedolion, ond dw i'n awyddus i wneud cais i astudio 'Dechrau Dysgu'. Beth sydd angen i mi wneud?**  
Rhaid bod trefniadau mewn lle i chi gwblhau o leiaf 6 gwrs neu 10 awr o ymarfer dysgu gyda darparwr cyrsiau dysgu Cymraeg i oedolion er mwyn cael eich derbyn ar y cymhwyster hwn. Bydd union delerau'r ymarfer dysgu yn dibynnu ar bolisi penodi staff darparwr cyrsiau Cymraeg i oedolion, a bydd angen y manylion ar DCGO er mwyn ystyried eich cais. Cysylltwch â'ch darparwr cyrsiau lleol i weld a oes cyfleoedd ar gael i chi gwblhau ymarfer dysgu â nhw. Mae manylion cyswllt darparwyr ar gael yma: [www.dysgucymraeg.cymru/amdanomni/darparwyr-cyrsiau/](http://www.dysgucymraeg.cymru/amdanomni/darparwyr-cyrsiau/)
- **Beth ydy'r ffi?**  
Ni chodir ffi ar diwtoriaid sy'n dysgu i un o'r 11 darparwr cyrsiau Cymraeg i oedolion.

Dysgu Cymraeg Morgannwg  
Prifysgol De Cymru  
Pontypridd  
CF37 1DL  
01443 483 600

**Cyswllt:** Annalie Price: [annalie.price@decymru.ac.uk](mailto:annalie.price@decymru.ac.uk)